



Taflen Teithiau Cerdded yn y Parc Gwledig



# Parciau Wrecsam, Gwasanaeth Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy



Gwybodaeth a Theithiau  
Parc Gwledig  
Dyfroedd Alun



# Canolfan Ymwelwyr Parc Gwledig Dyfroedd Alun

Mae mynedfa'r Ganolfan Ymwelwyr wedi ei lleoli yng Ngwersyllt, dair milltir i'r gogledd o Wrecsam oddi ar yr A541 Ffordd yr Wyddgrug

Mae mynedfa Llai i'r parc oddi ar Ffordd Llai i Wrecsam, y B5425

Dilynwch yr arwyddion parc gwledig brown a gwyn oddi ar Ffordd yr Wyddgrug A541 ar hyd rhodfa i'r Ganolfan Ymwelwyr.

Mae bysiau rhwng Wrecsam a'r Wyddgrug yn aros ar Ffordd yr Wyddgrug ger mynedfa Gwersyllt i Ddyfroedd Alun. Ceir bysiau rhwng Wrecsam, Llai a Bradley. Mae gorsaf reilffordd Gwersyllt gwta ½ milltir o'r parc.

## **Parc Gwledig Dyfroedd Alun**

Ffordd Wyddgrug, Gwersyllt

Wrecsam LL11 4AG

**Ffôn: 01978 763140**

Mae'r Ganolfan Ymwelwyr a'r Caffi'n agor rhwng 9.30 am - 4.30 pm

Mae'r prif giataiu ar gyfer mynediad cerbydau i'r Ganolfan Ymwelwyr yn cau am 4.45pm bob dydd.

## **Mae'r Parc ar agor bob dydd**

### **Cyfarwyddiadau at ochr Llai o'r parc (ar hyd y ffordd)**

Trwch i'r dde ar ddiwedd y rhodfa

Trowch i'r dde ger tafarn yr Hollybush (Cefn y bedd)

Evch yn eich blaen at y cylchfan bach a thrwch i'r dde

Trowch i'r dde wedi'r arwydd brown 'Parc Gwledig'



# Cyflwyniad

Dyfroedd Alun yw'r parc gwledig mwyaf yn Wrecsam ac mae wedi ei leoli ar ddwy ochr yr Afon Alun. Ar ochr Gwersyllt, ceir Canolfan Ymwelwyr gydag ystafell gynhadledd ar gael i'w llogi, caffi, llwybr heini ac ardal bicnic. Ar ochr Llai i'r Parc, mae cae chwarae i blant, cae p l droed, maes ymarfer golff a Gwarchodfa Natur Leol.

Dylai'r teithiau cerdded cod lliw yn y daflen hon weddu i wahanol ddi-ddordebau a galluoedd, a gallwch fynd am dro fer at yr Afon Alun neu ddilyn y llwybrau ar lan yr afon i wyllo'r bywyd gwyllt. Mae'r teithiau cerdded cylchol hirach yn cyfuno golygfeydd trawiadol o'r Parc a'r afon gydag amrywiaeth y lleoliad naturiol. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn natur, hanes, ffotograffiaeth neu ddiwrnod allan i'r teulu i gael ymarfer corff ac awyr iach, mae taith ar eich cyfer yn Nyfroedd Alun.

# Mynediad

Mae Mynediad i Ddyfroedd Alun am ddim ond croesewir cyfraniadau at y Grŵp Cyfeillion ac fe'u defnyddir er mwyn cynnal a chadw a gwella'r Parc. Os oes gennych ddi-ddordeb yn y Grŵp Cyfeillion, holwch am fanylion wrth ddesg y Ganolfan Ymwelwyr.

# Cŵn

Mae croeso bob amser i gŵn sy'n ymddwyn yn dda yn Nyfroedd Alun, ond rhaid eu cadw o dan reolaeth trwy'r amser. Cofiwch fod peidio chodi baw cŵn yn drosedd ddifrifol sy'n arwain at ddirwy yn y fan a'r lle. Mae bagiau baw cŵn ar werth yn y Ganolfan Ymwelwyr a gellir cael gwared ar fagiau a ddefnyddiwyd yn unrhyw un o'r biniau sbwriel o gwmpas y Parc.

*Designed by Bread and Butter Design 01978 844482*



# Bod yn egniol ym Mharc Gwledig Dyfroedd Alun

Mae cerdded neu feicio o amgylch Dyfroedd Alun yn rhad ac am ddim ac mae nifer o lwybrau 'mynediad i bawb', llwybrau beicio a theithiau cerdded sy'n nodi'r calor au a losgir i'w harchwilio. Mae mwyafrif y llwybrau ac wyneb arnynt yn ardderchog ar gyfer cadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn. Mae'r Parc yn ddelfrydol ar gyfer y rhai sy'n mynd chi am dro a theuluoedd sy'n cerdded neu'n beicio gyda'u plant. Mae trefnwyr digwyddiadau'n defnyddio'r lle fel man perffaith i godi arian. Mae'n boblogaidd ar gyfer teithiau cerdded a drefnwyd, a rasmus hwyl hefyd.

Mae'r gweithgareddau hyn yn ffurf wych o ymarfer corff gyda mantais fawr i'ch iechyd; gan leihau'r perygl o glefyd y galon, strôc a chlefyd y siwgr. Dylech deimlo'n fwy heini ac mae'n ffordd wych o golli tipyn o bwysau. Mae'r offer ymarfer corff ar ymyl y llwybr heini, ger y Ganolfan Ymwelwyr, yn hwyl ac yn hawdd i'w ddefnyddio ac maent wedi eu cynllunio'n arbennig i wella cryfder, stamina, cydbwysedd a chyd-symud. Gall yr hen a'r ifanc, fel ei gilydd, ddefnyddio'r offer. Gellir llogi beiciau mynydd ar rai dyddiau. Holwch wrth y ddesg neu ffoniwch am fanylion.

Mae gan y parc gwrs cyfeiriadu sydd wedi ei gynllunio'n arbennig. Y nod yw dod o hyd i'ch ffordd o gwmpas pwyntiau penodol neu 'gyfeirwyr' gan ddefnyddio map arbennig. Gall cyfeiriadu fod yn gystadleuol gyda thimau neu unigolion yn rasio o amgylch y cwrs yn erbyn y cloc, neu gallwch fynd o amgylch fel teulu am hwyl. Holwch wrth ddesg y Ganolfan Ymwelwyr am fwy o wybodaeth.



# Y cyfleusterau yn Nyfroedd Alun

Mae gan y Ganolfan Ymwelwyr gyfleusterau gwych.

Mae'r ystafell gynhadledd fawr a golau, sydd ar gael i'w llogi, yn gallu dal hyd at 100 o bobl ac mae ar gael ar gyfer hyfforddiant, digwyddiadau, part on pen-blwydd, addysg amgylcheddol a chyfarfodydd.

Mae'r ffenestri mawr yn caniatáu i ddigon o olau dydd ddod i mewn ac mae'r drysau'n agor yn syth allan i'r Parc. Mae toiledau cyhoeddus graenus yn yr adeilad, gan gynnwys cyfleusterau i'r anabl a man newid babanod. Mae'r caffi ar agor bob dydd gan gynnwys gŵyl y banc, ond nid ar ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan na Dydd Calan.

O gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr y mae byrddau picnic, ble gall ymwelwyr ymlacio yn yr amgylchedd tlws. Drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys gwyliau'r ysgol, gall ymwelwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithdai celf a chrefft, gweithgareddau chwaraeon, diwrnodiau gwirfoddoli i ymwelwyr a theithiau cerdded gydag arweinydd.

Mae'r ceidwaid yn cynnal rhaglen gyffrous o addysg awyr agored yn arbennig ar gyfer ysgolion. Mae'r rhain yn gysylltiedig i'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru Mae'r pynciau dysgu yn yr awyr agored yn cynnwys: cynefinoedd, trochi mewn afonydd / pyllau, daearyddiaeth afonydd, cyfeiriannu, mapio, teithiau tymhorol ac ysgol goedwig. Dylai athrawon sydd diddordeb mewn trefnu taith ysgol gysylltu i'r ceidwaid.

Cynhyrchwyd y daflen hon gan Wasanaeth y Parciau, Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Er bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau cywirdeb, nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn gallu derbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw wallau yn y cyhoeddiad hwn.



# Hanes Dyfroedd Alun

Yn ystod y 16eg Ganrif, roedd y Parc yn rhan o stad wledig fawr gyda Neuadd Gwersyllt yn ganolbwynt iddi. Roedd y perchnogion yn ochri gyda'r Brenhinwyr yn ystod Rhyfel Cartref Lloegr ac ym 1645, difrodwyd y Neuadd yn arw gan ysbeilio'r Pengrynwyr. Daeth y Parc yn boblogaidd ymysg y boneddigion fel lleoliad ar gyfer diddordeb hamdden newydd, sef saethyddiaeth.



*m 1 cyfarfu'r aethwyr  
rydeinig renhinol ym harc  
wersyllt a chomisiynwyd ohn  
mes, y paentir tirluniau, i  
wneud ysgythriad o'r cyfarfod,  
gan greu'r ddelwedd  
gynharaf o'r arc.*



Dymchwelwyd Neuadd Gwersyllt ym 1910 oherwydd tirlithriad glofaol ac ym 1953, prynodd MacAlpines y tir i agor chwareli ar ochr Gwersyllt a Llai o'r Parc. Cloddiwyd y tywod a'r graean a ddyddodwyd gan y rhewlifoedd filoedd o flynyddoedd ynghynt, a defnyddiwyd y tywod a'r graean i adeiladu Argae enfawr Llyn Brennig yn uchel ar Fynydd Hiraethog.

Gwnaed tipyn o waith tirlenwi yn rhai o ardaloedd y cloddio gynt, ond rhoddwyd y gorau iddi erbyn canol y 1980'au. Prynodd Cyngor Bwrdeistref Maelor Wrecsam ran helaeth o'r tir ym 1988 a dynodwyd yr ardal yn barc gwledig ym 1989.

# Oes yr Iâ — Dyfroedd Alun



Mae rhan helaeth o dir Dyfroedd Alun a'r cyffiniau yn gorwedd ar ben tywod a graean a ffurfiwyd pan fu rhewlif yn erydu'r creigiau, yn Ystod Oes yr Iâ, drwy symud yn araf dros y tir, gan ddal cerrig a thywod yn y rhew.

Pan doddodd y rhewlif 13,000 o flynyddoedd yn ôl, bu'r nentydd a'r afonydd a adawyd ar ôl yn gwahanu'r tywod, clai a'r graean yn haenau.

Nid tywod a cherrig mewn oedd yr unig bethau i gael eu golchi o'r rhewlif! Ar ryw adeg, filoedd o flynyddoedd yn ôl, bu farw mammoth mawr blewog ar y rhew, a gorweddodd yno, heb ei darfu, hyd 1966, pan drowyd y Parc yn chwarel raeon. Dadorchuddiwyd un o ysgithrau mawr y mammoth gan un o'r wyr y peiriannau codi baw, ac mae bellach yn Amgueddfa Lerpwl.





# Bioamrywiâeth a Dyfroedd Alun

Wrth gloddio'r tywod a'r graean, collwyd yr haen uchaf o bridd cyfoethog, ond mae'r haenen is o bridd salach wedi creu cynefin o ddolydd cyfoethog yn llawn ffabys, gweiriach, llygad yr ych a chlych y meirch. Yn yr haf, mae'r tegeirian dwys blodeuog yn werth ei weld, yn ogystal 'r tegeirian gwenynog a'r caldrist, rhai ohonynt yn brin iawn. Mae'r Parc yn gartref delfrydol i'r ehedydd, ac ar un adeg, roedd sŵn ei gan arbennig i'w chlywed yn uchel uwchben y wlad, ond mae newidiadau mewn arferion ffermio wedi gwneud yr aderyn yn greadur prin.

Bob blwyddyn, pan ddaw tymor magu'r ehedydd i ben, torrir peth o'r gwair gan amaethwyr a'i ddefnyddio i fwydo'r anifeiliaid dros y gaeaf. Mae hyn yn rhwystro dolydd yr ehedydd a gwelltiroedd eraill rhag tyfu'n brysg ac yna'n goetir, allai olygu colli poblogaeth yr ehedydd. Mae ardaloedd eraill o laswellt, yn enwedig o gwmpas y Ganolfan Ymwelwyr ac ar hyd y llwybrau, o dan reolaeth poblogaeth fawr o gwingod!

Caiff rhai ardaloedd gyfle i adfywio'n naturiol gyda choed megis y ffawydd a'r bedw. Mae rheoli coetiroedd yn







cynnwys teneuo rhai o'r coed er mwyn i blanhigion eraill fynnu. Mae'r cynefin coediog ysgafnach hwn yn caniatáu i blanhigion llai fel garleg gwyllt, llygad Ebrill a blodau'r gwynt ffynnu.

Ar hyd yr Afon Alun, mae canopi'r Helyg a'r coed gwern yn edrych yn lled naturiol, a heb eu tarfu gydag ardaloedd mawr o hesg pendrwm, melyn y gors, tormaen aur a rhawn y coed, yn ogystal ffwng diddorol. Mae nadroedd y gwair, gwiberod, madfallod y dŵr a'r fadfall gribog i gyd wedi eu cofnodi yn Ddyfroedd Alun.

Mae pysgod megis crethyll, penllwydion a brithyll brown yn byw yn yr afon, ac mae rhai ymwelwyr wedi bod yn ddigon ffodus o weld

glas y dorlan a bronwen y dŵr ar hyd glan yr afon.

Mae bwncathod, cudyll coch a llwynogod wedi eu gweld, a gyda'r nos yn yr haf, gwelwyd ystlumod yn gwibio ar hyd yn afon yn chwilio am wyfynod a gwenoliaid y bondo yn gwibio dros y dŵr.

*Ceisiwch beidio â tharfu ar y cynefinoedd, planhigion na'r anifeiliaid ar hyd yr afon, gan eu bod wedi eu gwarchod gan y gyfraith.*



## Llwybrau wedi eu Harwyddo

Mae llwybrau trwy'r coed, gwelltiroedd ac ar lan yr afon wedi eu harwyddo i annog ymwelwyr i archwilio'r amrywiaeth ar ochr Gwersyllt a Llai y Parc.

Mae llwybrau pwrpasol sy'n caniatáu 'mynediad i bawb' a llwybrau beics sy'n darparu beicio diogel i'r teulu cyfan. Mae rhai llwybrau'n llydan gyda tharmac arnynt ac maent yn cynnig mynediad gwych i gadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio, er bod un allt serth.

Mae pyst pren yn dangos y detholiad o lwybrau cerdded sydd wedi eu lliwio i weddu i allu'r rhan fwyaf o bobl.



## Llwybrau cerdded lliw ar ochr Gwersyllt y parc:

### 4 llwybr melyn (3/4 milltir)

Dilynwch y llwybr i lawr o'r Ganolfan Ymwelwyr heibio'r coetiroedd ac ardaloedd agored o flodau gwylt lle gwelwch bili pala a gwyfynod ymysg helyg y rhosod. Mae hon yn daith fer a dymunol at yr afon gyda meinciau i orffwyso ar hyd y ffordd. Gallwch ddychwelyd wedyn ar hyd y llwybr hwn i'r Ganolfan Ymwelwyr neu barhau ar hyd.

### 4 llwybr gwyrdd (1 milltir)

Dilynwch yr un ffordd ag uchod ond trowch i'r dde wrth yr arwydd. Mae'r ffordd hon yn mynd drwy welltiroedd a choetiroedd. Yn y diwedd, fe welwch Ddôl yr Ehedydd, ac efallai y cewch chi gipolwg ar yr adar prin yma. Mae'r ffordd hon yn mynd trwy strwythurau dur rhyfeddol 'Metamorffosis' y Parc sy'n darlunio 'Cylchoedd Bywyd'.

### The Orange Trail (1 mile)

Dilynwch y llwybr fel uchod ond gallwch ddal ymlaen ar hyd glan yr afon a mwynhau'r olygfa o ymyl y dŵr. Mae coed aeddfed glan yr afon

yn cynnwys: derw a chastanwydden. Cadwch olwg am las y dorlan a bronwen y dŵr sydd i'w gweld yma. Dilynwch llwybr glan yr afon a chroeswch i'r llwybr coed. Yn ystod yr haf, mae gwas y neidr a mursennod yn hedfan drwy'r gweiriach cyfagos. Dilynwch y rhan serth i fyny'r allt i'r dde. Yn yr hydref, fe welwch wledd o ddrain gwynion, mwyar duon, ysgaw a chrafol wrth i chi gerdded yn eich ôl i'r fan lle mae'r llwybr hwn yn ymuno 'r llwybr gwyrdd gan fynd heibio i'r strwythurau dur.

## Llwybrau cerdded lliw ar ochr Llai y Parc.

### Y llwybr glas (3/4 milltir)

Dilynwch y llwybr o'r maes parcio, ger maes chwarae'r plant a daliwch i fynd ar hyd y ffin allanol ger Ffordd Newydd Llai. Ewch i'r chwith o amgylch ymyl y coed helyg a bedw ac yna i'r chwith eto gan fynd heibio i Strwythur y Cwmwl ac yn ôl i'r maes parcio.

### Y llwybr coch (2 filltir)

Dilynwch yr un llwybr ag uchod, ond yna dilynwch llwybr hirach drwy fynd i'r dde drwy Warchodfa Natur y coetir. Trowch i'r chwith wrth yr

arwydd yn y coed drwy goed dwys ac yn ôl i'r maes parcio gan fynd heibio i'r Wy Marmor hardd a'r Strwythur Cwmwl. Mae hwn yn llwybr arbennig o braf i weld bywyd gwyllt megis cnocell werdd y coed a'r gnocell fraith leiaf wrth gerdded drwy'r coed.

### Y llwybr porffor (2 ½)

Mae'r llwybr hwn yn cychwyn o'r maes parcio ac yn mynd yn syth ymlaen at Strwythur y Cwmwl ac yn syth ymlaen drwy goed y Warchodfa Natur. Ewch yn eich blaen, gan anwybyddu'r tro i'r chwith ar gyfer y llwybr coch, nes y cyrhaeddwch y Cerflun Cloddio a throwch yn syth yn ôl i'r chwith, gan ddilyn y llwybr cylch hwn drwy'r coed, heibio'r cwrs golff ac yn ôl i'r maes parcio.





Teithiau  
Cerdded Llai



Y llwybr glas  
(3/4 milltir)




Y llwybr coch  
(2 filltir)



Y llwybr coch  
(2 filltir)



Teithiau  
Cerdded Gwersyllt



Y llwybr melyn  
(3/4 milltir)



Y llwybr gwyrdd  
(1 milltir)



The Orange Trail  
(1 mile)

# Taith Gerdded Gylchol Dyffrun Alun (4.5 milltir)

Dechreuw'r daith gerdded hon yng Nghanolfan Ymwelwyr Dyfroedd Alun ac ymlwybra drwy bentref Gwersyllt, ar draws ffermdir agored, ger afonydd a nentydd byrlymog a drwy ddyffrynnoedd coediog tawel lle gellwch weld olion o hanes amrywiol yr ardal.

Bydd y llwybr yn mynd heibio i Fryngaer Caer Alyn o'r Oes Haearn. Mae'r prosiect Caer Alyn yn cynnwys archeolegwyr yn cloddio ar y safle yn chwilio am dystiolaeth o fryngaer o'r Oes Haearn a thomen gladdu o'r Oes Efydd. Am ragor o wybodaeth am y prosiect cyffrous hwn cysylltwch [www.caeralyn.org](http://www.caeralyn.org)

Mae'r llwybr hefyd yn ymuno 'r Llwybr Cenedlaethol Clawdd Wat gan ddychwelyd i Ddyfroedd Alun.

Hyd y daith yw 4 milltir a chymera oddeutu 2.5 awr. Mae'r daith yn fwdlyd mewn mannau ac awgrymir gwisgo esgidiau addas. Ceir camfeydd, llethrau serch a ffyrdd felly nid yw'n addas i gadeiriau olwyn, bygis na phlant bach.

Gellir lawr lwytho manylion am y daith a map oddi ar [www.wrexham.gov.uk/rightsofway](http://www.wrexham.gov.uk/rightsofway)

